

YR IAITH AR DAITH

BLWYDDYN 3 DARLITH 3 24.10.2019
BETHAN GRIFFITHS

NOD Y WERS HEDDIW ...

Elfennau ieithyddol :

- arddodiaid
- rhagenwau



ARDDODIAID

YR ARDDODIAID MWYAF CYFFREDIN

am

ar

at

gan

heb

i

o

dan

dros

drwy

wrth

hyd

Dyma rai o'r prif arddodiaid **syml**.

Mae arddodiaid syml yn cynnwys un gair.

Bydd **treigladd meddal** ar ôl pob un o'r uchod.



RHEDEG ARDDODIAID

am

ar

at

gan

heb

i

o

dan

dros

drwy

wrth

hyd

Wrth ddefnyddio'r arddodiaid uchod yng nghyd-destun person penodol, rhaid defnyddio ffurf gywir yr arddodiad h.y. rhaid rhedeg yr arddodiad.

ARDDODIAID RHEDIADOL (HIR)

Ystyr: arddodiaid sy'n newid yn ôl y person y maen nhw'n cyfeirio ato

1. Mae annwyd **arnaf** i.
2. Anfonais lythyr **ati** hi.
3. Mae'r athro wedi dweud **wrthyn** nhw sawl gwaith.
4. Roedd yr athrawes yn poeni **amdani** hi.

YMARFER

1. Oes _____ ti arian i'w wario yn y dref?
2. Gofynnais _____ hi ddarllen yn y gwasanaeth.
3. Mae Nain yn dod _____ ni i aros am benwythnos hir.
4. Mae _____ hi ofn cŵn mawr.
5. Mae'n rhaid dweud _____ fi os wyt ti'n poeni.
6. "Mae cyfrifoleb _____ ti i wella dy waith", meddai'r athro.
7. Wyt ti wedi clywed oddi _____ hi?
8. Gwaeddais _____ fe i fod yn dawel.
9. Aeth mam _____ fi yn y car y bore hwnnw gan fy mod yn hwyr.
10. Llifai dŵr o _____ ni wrth i ni sefyll ar y bont.

YMARFER

- Oes **gennyf** ti arian i'w wario yn y dref?
- Gofynnais **iddi** hi ddarllen yn y gwasanaeth.
- Mae Nain yn dod **aton** ni i aros am benwythnos hir.
- Mae **arni** hi ofn cŵn mawr.
- Mae'n rhaid dweud **wrthyf** i os wyt ti'n poeni.
- “Mae cyfrifoleb **arnat** ti i wella dy waith”, meddai'r athro.
- Wyt ti wedi clywed oddi **wrthi** hi?
- Gwaeddais **arno** fe i fod yn dawel.
- Aeth mam **hebdo** i yn y car y bore hwnnw gan fy mod yn hwyr.
- 10. Llifai dŵr o (**dan**) ni wrth i ni sefyll ar y bont.

Arddodiaid

Pan fydd rhagenw (e.e. **fi**, **ti**) yn dilyn arddodiad, rhaid gwneud yn siwr bod terfyniad yr arddodiad yn cyfateb i'r rhagenw, e.e.

wrth + hi = wrthi hi.

Rydych chi'n gallu defnyddio'r arddodiad **heb** ei redeg (newid) gydag **enw**, e.e.
Ysgrifennais lythyr **at** y pennaeth.



Ymarferion

1. Llenwch y grid isod gan ddefnyddio ffurf gywir yr arddodiad bob tro.

	Rhaid dweud ... am fanteision ymuno â'r undeb.	Mae'n hen bryd ... ennill bywoliaeth.	Maen nhw wedi ysgrifennu ... i gwyno am yr amodau gwaith.	Pwy sydd wedi derbyn gwahoddiad ... i'r seremoni graddio?	Aethon nhw i'r ddarlith ...
fi			ataf i		
ti					hebddot ti
ef/fe/fo				ganddo ef/fe/fo	
hi	wrthi hi				
ni					
chi		i chi			
nhw					
y plant/Gareth			at y plant/at Gareth		

	Rhaid dweud ... am fanteision ymuno â'r undeb.	Mae'n hen bryd ... ennill bywoliaeth.	Maen nhw wedi ysgrifennu ... i gwyno am yr amodau gwaith.	Pwy sydd wedi derbyn gwahoddiad ... i'r seremoni graddio?	Aethon nhw i'r ddarlith ...
fi	wrtho i/wrthyf i	i fi/i mi	ata i/ataf i	gen i/gennyf i	hebdo i
ti	wrthot ti/wrthyt ti	i ti	atat ti	gennyt ti	hebddot ti
ef/fe/fo	wrtho ef/fe/fo	iddo ef/fe/fo	ato ef/fe/fo	ganddo ef/fe/fo	hebdo ef/fe/fo
hi	wrthi hi	iddi hi	ati hi	ganddi hi	hebdi hi
ni	wrthon ni /wrthym ni	i ni	aton ni /atom ni	gennyn ni /gennym ni	hebbon ni /hebdom ni
chi	wrthoch chi /wrthych chi	i chi	atoch chi	gennych chi	hebdoch chi
nhw	wrthyn nhw /wrthynt hwy	iddyn nhw /iddynt hwy	atyn nhw /atynt hwy	ganddyn nhw /ganddynt hwy	hebbyn nhw /hebbynt hwy
y plant/ Gareth	wrth y plant/ wrth Gareth	i'r plant/ i Gareth	at y plant/ at Gareth	gan y plant/ gan Gareth	heb y plant/ heb Gareth

(Pan mae ffurf ffurfiol gyfarwydd i rediad yr arddodiad, mae wedi cael ei ddangos mewn ysgrfen italig.)	am amdana(<i>f</i>) i amdanat ti amdano <i>ef/fe</i> amdani hi amdanon ni amdanoch chi amdanon nhw	ar arna(<i>f</i>) fi arnat ti arno <i>ef/fe</i> arni hi arnon ni arnoch chi arnon nhw
at ataf i atat ti ato <i>ef/fe</i> ati hi aton ni atoch chi aton nhw	gan <i>gennyf i/gen i</i> <i>gennyt ti/gen ti</i> <i>ganddo ef/fe</i> <i>ganddi hi</i> <i>gennym ni/gynnon ni</i> <i>gennyh chi/gynnoch chi</i> <i>ganddyn nhw</i>	heb hebddo i hebddot ti hebddo <i>ef/fe</i> hebddi hi hebddon ni hebddoch chi hebddyn nhw
i <i>i mi/fi</i> i ti iddo <i>ef/hi</i> iddi hi i ni i chi iddyn nhw	o ohono(<i>f</i>) i ohonot ti ohono <i>ef/fe</i> ohoni hi ohonon ni ohonoch chi ohonyn nhw	dan dana(<i>f</i>) i danat ti dano <i>ef/fe</i> dani hi danon ni danoch chi danyn nhw
tros/dros <i>trosof fi/drosto i</i> <i>trosot ti/drostot ti</i> <i>trosto ef/drosto fe</i> <i>trosti hi/drosti hi</i> <i>trosom ni/droston ni</i> <i>trosoch chi/drostoch chi</i> <i>trostyn nhw/drostoch chi</i>	trwy <i>trwof i/trwyddo i</i> trwyddot ti trwyddo fe trwyddo hi <i>trwom ni/trwyddon ni</i> <i>trwoch chi/trwyddoch chi</i> trwyddyn nhw	wrth wrthyf i/wrtho i wrthot ti/wrthyt ti wrtho <i>ef/fe</i> wrthi hi wrthon ni wrthoch chi wrthyn nhw
rhwng rhyngo(<i>f</i>) i rhyngot ti rhyngddo <i>ef/fe</i> rhyngddi hi rhyngon ni rhyngoch chi rhyngddyn nhw	yn yno(<i>f</i>) i ynot ti ynddo <i>ef/fe</i> ynddi hi ynon ni ynoch chi ynddyn nhw	rhag rhagddo i rhagddot ti rhagddo <i>ef/fe</i> rhagddi hi rhagddon ni rhagddoch chi rhagddyn nhw

2. Cywirwch yr arddodiaid yn y brawddegau a'r cwestiynau hyn.

1. Mae angen iddon ni ddeall y sefyllfa.

2. Wyt ti wedi anfon y ddogfen ato y pennaeth?

3. Does dim gobaith gennym heb chi.

4. Oes ganddyn ni amser i orffen y gwaith?

5. Rydw i wedi dweud wrtho nhw sawl gwaith.

6. Anfonodd hi lythyr ato ti ddoe.

7. Mae'n sesiwn Datblygiad Personol pwysig i nhw.

8. Aeth o ar y bws heb hi.

ATEBION

1. Mae angen i ni ddeall y sefyllfa.
2. Wyt ti wedi anfon y ddogfen at y pennaeth?
3. Does dim gobaith gennym ni/gennyn ni hebddoch chi.
4. Oes ganddynt hwy/ganddyn nhw amser i orffen y gwaith? / Oes gennyn ni/gennym ni amser i orffen y gwaith?
5. Rydw i wedi dweud wrthyn nhw/wrthynt (hwy) sawl gwaith.
6. Anfonodd hi lythyr atat ti ddoe.
7. Mae'n sesiwn Datblygiad Personol pwysig /iddyn nhw/ iddynt (hwy).
8. Aeth o ar y bws hebddi hi.

RHEOL: 'Y DODO'

'Ble wyt ti'n
dod-o?'



A minnau ar wyliau eleni,
Ces air o gyngor gan ieithgi:
'Paid dodi arddodiad
Ar ddiwedd gosodiad.'
Atebais mewn eiliad, 'Sa'i 'n mynd i!'

Emyr Davies

fī, tī, ef, hī, nī, chī, nhw

Os ydych chi'n defnyddio **fī, tī, ef, hī, nī, chī, nhw**
rhaid rhedeg yr arddodiad.

Peidiwch â rhedeg yr arddodiad gydag enwau
(Nia, Huw, y plant, y dosbarth...)

Anfonais lythyr at Nia. → Anfonais lythyr **ati** hi.

Dywedais wrth y plant am wrando. → Dywedais _____ **nhw** am wrando.

RHEOL 2: ARDDODIAID CYFANSAWDD

Mae arddodiaid cyfansawdd yn cynnwys **mwyr nag un elfen**

Gall y rhain weithiau gael eu hysgrifennu ar ffurf un gair

er mwyn	ar ôl	ar gyfer	am ben
oherwydd	ynghylch	uwchben	

ARDDODIAID A BERFENWAU

- Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau:

siarad
cwrdd
mynd
ysgrifennu
sylwi

dweud
gwrando
edrych
anfon
sôn

Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

edrych

gofyn

sôn

talw

am

edrych am...

gofyn am...

sôn am...

talw am...

Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

edrych

gweiddi

gwrando

sylwi

ar

edrych ar...

gweiddi ar...

gwrando ar...

sylwi ar...

Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

ysgrifennu

mynd

anfon

anelu

at

ysgrifennu at..

mynd at...

anfon at...

anelu at...

Pa arddodiaid gyda pha ferfenwau?

cwrdd

cyffwrdd

dod

mynd

peidio

siarad

â/ag

cwrdd â...

cyffwrdd â...

dod â...

mynd â...

peidio â...

siarad â...

PA ARDDODIAD SY'N MYND GYDA PHA FERF?

1. to tell.
2. to remember to a person
3. to send to (a person)
4. to congratulate for
5. to talk about
6. to go to (a place)
7. to shout at
8. to write to (a person)
9. to think about
- 10.to worry about
- 11.to look at
- 12.to look / search for
- 13.to listen to
- 14.to come from

1. Dweud wrth
2. Cofio at
3. Anfon at
4. Llongyfarch am
5. Siarad am
6. Mynd i
7. Gweiddi ar
8. Ysgrifennu at
9. Meddwl am
- 10.Poeni am
- 11.Edrych ar
- 12.Chwilio am
- 13.Gwrandu ar
- 14.Dod o

Clywais i am y cwrs drwy'r Athro Bro > drwyddo fe	Aethon ni ar y trip heb y rhieni > hebddyn nhw	Peidiwch â phoeni am y wers > amdani hi	Mae annwyd ar Llion > arno fe
Clywais i am y swydd drwy'r Athrawes Fro > drwyddi hi	Cofiwch fi at Dafydd Iwan > ato fe	Peidiwch â phoeni am y treigladau > amdanyn nhw	Roedd annwyd ar Angharad > arni hi
Clywais i am y swydd drwy'r Pennaeth a'r Athrawes Fro > drwyddyn nhw	Cofiwch fi at Cerys Mathews > ati hi	Rydw i wedi paratoi gwaith i Norman Pryce > iddo fe	Mae annwyd ar y tiwtoriaid > arnyn nhw
Aethon ni ar y trip heb y Prifathro > hebddo fe	Cofiwch fi at Max Boyce a Tom Jones > atyn nhw	Rydw i wedi paratoi gwaith i Sali Mali > iddi hi	Dywedais i wrth y Prifathro > wrtho fe
Aethon ni ar y trip heb y Brifathrawes > hebddi hi	Peidiwch â phoeni am yr asesu > amdano fe	Rydw i wedi paratoi gwaith i'r plant > iddyn nhw	Dywedais i wrth y Brifathrawes > wrthi hi

adrodd am/wrth	credu yn/am	dianc rhag	gweddio ar/am/ dros	rhyfeddu at
anghofio am	cyd-weld â	disgwyl am/i	gweiddi ar/am	siarad â/am
amddiffyn rhag	cyfarfod â	dweud wrth/am	gwrando ar/am	sôn wrth/am
anelu at	cyffwrdd â	dylanwadu ar	hiraethu am	sylwi ar
anfon at/i	cyhuddo o	dysgu i/am	llwyddo i	synnu at
apelio at/ar	cynnig i/am	estyn at/	maddau i	talw i/am
atal rhag	cytuno â	ffarwelio â	mynd at/i	ufuddhau i
ateb dros	chwerthin am	gadael i	peidio â	ychwanegu at
bodloni ar/i	chwilio am/i	gafael yn/mewn	pwysu ar	ymdrin â
caniatu i	dangos i/sut	gofalu am	rhedeg at/ar	ymladd â/dros
clywed am/gan	dial ar	gofyn i/am	rhoi i/am	ymosod ar
cofio am		gwahardd rhag		ysgrifennu at/i

ARDDODIAID A BERFENWAU

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau

siarad â	gwrando ar	meddwl am
dweud wrth	ysgrifennu at	aros am

Mae angen dewis yr arddodiad cywir.

Yn anffodus does dim patrwm ar gyfer dewis!

Mae'n fater o gofio!

Llyfr: Pa Arddodiad?
gan D. Geraint Lewis



BRAWDDEGAU SALWCH

fi: Mae pen tost gennyf i/gen i

Mae gennyf **ben** tost / Mae gen i **ben** tost

Mae'n iawn defnyddio 'gyda' yn hytrach na 'gan'

Mae *pen* tost gyda *fi*.



Y PRIF REOLAU

RHEOLAU PWYSIG

- Peidiwch â defnyddio arddodiaid syml ar ddiwedd brawddegau:

× Ble wyt ti'n dod o?

✓ O ble wyt ti'n dod?

- Rhaid rhedeg arddodiaid ar ddiwedd brawddegau:

Mae annwyd **arnaf i.**

RHEOLAU PWYSIG

- Cofiwch ddefnyddio'r arddodiaid cywir ar ôl berfenwau.
- Cofiwch redeg yr arddodiad gyda'r rhagenwau – **fi / ti/ ef / hi / ni / chi / nhw.**
- Cofiwch fod treigladau meddal ar ôl rhagenwau hefyd.

DEFNYDDIO ARDDODIAID YN GYWIR

CYWIRWCH Y RHAIN (OS OES ANGEN)

I'w gwblhau erbyn
– 7.11.19

1. Edrychodd ar a gofynnodd am gopi **o**'r daflen.
2. Roedd Rhys wedi siarad â a diolch **i**'r prifathro am ei gefnogaeth.
3. Roeddem wedi darllen drwy a gwneud nodiadau **ar** yr adroddiad.
4. Byddwn yn gwrando ar ac ysgrifennu **at** y rhieni.
5. Gobeithio eich bod yn ymddiried yn ac yn falch **o** Mair.
6. Gobeithio y cawn y ffurflen dros neu **cyn** y penwythnos.